This report is available in English

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Adroddiad perfformiad blynyddol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar reoli cwynion

## 1 Ebrill 2025 – 31 Mawrth 2026

This report is available in English

## Cynnwys

.......... 1

1. Cyflwyniad .......... 3

1.1 Anghenraid statudol .......... 3

1.2 Dyletswyddau statudol y Comisiynydd mewn perthynas â chwynion .......... 3

1.3 Diben yr adroddiad hwn .......... 3

1.4 Cwmpas .......... 3

2. Hunanasesiad y Comisiynydd:Swyddogaethau delio â chwynion .......... 3

2.1 Cwynion am y Prif Gwnstabl (rôl yr awdurdod priodol) .......... 3

3. Adolygiadau o gwynion Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu .......... 4

3.1 Cyd-destun deddfwriaethol .......... 4

3.2 Rôl y Comisiynydd fel corff adolygu perthnasol .......... 4

3.3 Model a fabwysiadwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys .......... 4

3.4 Hawliau adolygu .......... 4

3.5 Cyfrifoldebau adolygu'r IOPC a'r Comisiynydd .......... 5

3.6 Allanoli adolygiadau o gwynion .......... 5

3.7 Sicrhau ansawdd .......... 5

3.8 Dysgu a goruchwylio .......... 5

3.9 Adolygu perfformiad 2025–26 .......... 5

4. Dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif .......... 6

4.1 Dirprwyo awdurdod priodol .......... 6

4.2 Bwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol .......... 6

5. Craffu pellach a thawelwch meddwl y cyhoedd .......... 6

5.1 Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF (HMICFRS) a Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu .......... 6

5.2 Amseroldeb cyflwyno adroddiadau .......... 7

5.3 Y Panel Heddlu a Throseddu .......... 7

5.4 Pryderon y gymuned .......... 7

6. Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu .......... 7

This report is available in English

7. Hapsamplu cwynion Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu .............................. 8
7.1 Gweithgarwch hapsamplu ............................................................................ 8
8. Cyhoeddi ............................................................................................... 8
9. Atodiad: Mapio i'r Gorchymyn Gwybodaeth Benodedig (2021) ............................... 8

---

## 1. Cyflwyniad

### 1.1 Anghenraid statudol

O dan *Orchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) (Diwygio) 2021*, mae'n ofynnol i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu gyhoeddi hunanasesiad blynyddol o berfformiad wrth oruchwylio gweithgarwch rheoli cwynion yr heddlu gan Heddlu Dyfed-Powys.

### 1.2 Dyletswyddau statudol y Comisiynydd mewn perthynas â chwynion

Mae gan y Comisiynydd dri phrif gyfrifoldeb:

- Gweithredu fel yr **awdurdod priodol** ar gyfer cwynion am y Prif Gwnstabl
- Dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd system gwynion yr heddlu
- Gweithredu fel y **corff adolygu perthnasol** ar gyfer rhai cwynion heddlu

### 1.3 Diben yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r adnoddau, y trefniadau llywodraethu a'r prosesau a fabwysiadwyd gan y Comisiynydd i gyflawni'r dyletswyddau hyn ac yn rhoi sicrwydd o gydymffurfedd â'r Gorchymyn Gwybodaeth Benodedig.

### 1.4 Cwmpas

**Nid** yw'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am gwynion nac adolygiadau unigol.

---

## 2. Hunanasesiad y Comisiynydd:Swyddogaethau delio â chwynion

### 2.1 Cwynion am y Prif Gwnstabl (rôl yr awdurdod priodol)

Mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn statudol gyfrifol am ystyried cwynion a wneir yn erbyn y Prif Gwnstabl ac am sicrhau y delir â chwynion o'r fath mewn modd rhesymol a chymesur.

*Perfformiad yn ystod y cyfnod adrodd*

Rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026:

This report is available in English

- Daeth **wyth cwyn** i law Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ymwneud â'r Prif Gwnstabl.
- Nid oedd **chwe chwyn** yn bodloni'r meini prawf i’w cofnodi’n ffurfiol ac roeddent yn addas i'w datrys drwy brosesau amgen
- Cofnodwyd **dwy gŵyn** yn ffurfiol a'u hasesu fel rhai nad oeddent yn cyrraedd y trothwy i’w hatgyfeirio i'r Swyddfa Annibynnol ar gyfer Ymddygiad yr Heddlu (IOPC).

O'r ddwy gŵyn a gofnodwyd:

- Ni chafodd y gŵyn gyntaf ei chadarnhau gan ei bod yn ymwneud ag awdurdod dirprwyedig ac nid yw’n gŵyn uniongyrchol yn erbyn y Prif Gwnstabl. Ni wnaeth yr achwynydd arfer ei hawl i gael adolygiad gan yr IOPC
- Daeth yr ail gŵyn i law yn ddienw drwy Crimestoppers. Roedd y gŵyn yn ymwneud â phrosesau recriwtio mewnol. Gwnaed ymholiadau â'r heddlu ac ni chymerwyd unrhyw gamau gweithredu pellach. Roedd y Comisiynydd yn fodlon bod y gweithdrefnau cywir wedi'u dilyn a bod y pryderon a godwyd yn ymwneud â phroses ddirprwyedig.

Gwnaed yr holl benderfyniadau yn unol â Chylchlythyr Focus yr IOPC – *Ymdrin â chwynion yn erbyn Prif Swyddog* (Cylchlythyr Focus 16).

---

## 3. Adolygiadau o gwynion Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

### 3.1 Cyd-destun deddfwriaethol

Cyflwynodd *Deddf Plismona a Throseddu 2017* ddiwygiadau i system gwynion yr heddlu i wella annibyniaeth, tryloywder a’r broses o ddysgu o gwynion.

### 3.2 Rôl y Comisiynydd fel corff adolygu perthnasol

O dan y trefniadau newydd, mae'r Comisiynydd neu'r IOPC yn gweithredu fel y corff adolygu perthnasol, gan ddisodli'r system apeliadau flaenorol.

### 3.3 Model a fabwysiadwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Mae'r Ddeddf yn darparu tri model gweithredu. Mabwysiadodd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Heddlu Dyfed-Powys **Fodel 1**, mae'r sail resymegol dros y penderfyniad hwn wedi'i chyhoeddi ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

### 3.4 Hawliau adolygu

Ers 1 Chwefror 2020, gall unigolion sy'n anfodlon â chanlyniad cwyn a gofnodwyd o dan Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* wneud cais am adolygiad. Heddlu Dyfed-Powys sy'n parhau i fod yn gyfrifol am gofnodi ac ymchwilio i gwynion.

This report is available in English

### 3.5 Cyfrifoldebau adolygu'r IOPC a'r Comisiynydd

Yr IOPC yw'r corff adolygu perthnasol mewn achosion sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Ymddygiad uwch-swyddog (uwchlaw Prif Uwch-arolygydd)
- Materion troseddol neu ddisgyblu posibl
- Ystyriaethau Erthygl 2 neu 3 o Siarter Hawliau Dynol Ewrop (ECHR)
- Atgyfeiriadau IOPC gorfodol neu seiliedig ar fenter

Ym mhob achos cymwys arall, y Comisiynydd yw'r corff adolygu perthnasol.

### 3.6 Allanoli adolygiadau o gwynion

Yn dilyn proses dendro ar y cyd a arweinir gan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, dyfarnwyd contract i Sancus a ddefnyddir ar y cyd gan y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ar gyfer heddluoedd Dyfed-Powys, Gwent a Gogledd Cymru. Bydd adolygiadau o gwynion yn cael eu rhoi ar gontract allanol i Sancus fel y bo angen er mwyn sicrhau gwydnwch a hyfywedd ariannol i'r Comisiynwyr.

Hysbysir pob achwynydd bod modd allanoli adolygiadau i Sancus, gyda'r wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi ar [wefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.]

### 3.7 Sicrhau ansawdd

Mae trefniadau sicrhau ansawdd cadarn ar waith:

- Adolygiad annibynnol gan Sancus
- Ystyriaeth o ganlyniadau gan weithwyr achos ansawdd gwasanaeth hyfforddedig Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu
- Goruchwyliaeth gan y Pennaeth Sicrwydd cyn datgelu
- Hyfforddiant parhaus a arweinir gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu ar gyfer staff Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu

### 3.8 Dysgu a goruchwylio

Rhennir argymhellion a phwyntiau dysgu ag Adran Safonau Proffesiynol yr heddlu, ac mae angen ymatebion ffurfiol o fewn 28 diwrnod. Mae data adolygu yn cael eu cofnodi, ac adrodd amdanynt, bob chwarter i'r Bwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol. Mae'r Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu hefyd yn cyfarfod bob chwarter â Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu i nodi themâu a rhannu arferion gorau.

### 3.9 Adolygu perfformiad 2025–26

- **53 o geisiadau adolygu** wedi dod i law (60 yn 2024–25)
- **51 o adolygiadau wedi'u cwblhau**, gan gynnwys dau a gariwyd drosodd o'r flwyddyn flaenorol
- **10 wedi'u cadarnhau** a **41 heb eu cadarnhau**
- Arweiniodd **10 adolygiad** at argymhellion ffurfiol ar gyfer yr heddlu

- Cariwyd **4 adolygiad** ymlaen i 2026–27

---

## 4. Dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif

### 4.1 Dirprwyo awdurdod priodol

Y Prif Gwnstabl, yn gweithredu drwy'r Dirprwy Brif Gwnstabl a'r Adran Safonau Proffesiynol, yw'r awdurdod priodol ar gyfer cwynion yn erbyn swyddogion, staff a gwasanaethau.

### 4.2 Bwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol

Wedi bod ar waith ers mis Mawrth 2024, mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob chwarter ac yn cael ei gadeirio gan Brif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Cyfarfu **bum gwaith** yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae eitemau sefydlog ar yr agenda yn cynnwys:

- Perfformiad yr heddlu gan gynnwys data Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu ar boddhad ar y ffordd y deliwyd â chwynion
- Camymddwyn a gwirio
- Adolygiadau o gwynion yn erbyn Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu a chanfyddiadau hapsamplu

Roedd y gweithgarwch craffu ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Adroddiadau cenedlaethol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
- Tryloywder camymddygiad ac ymatebion rhyddid gwybodaeth
- Polisïau chwythu’r chwiban a gwrthlygredigaeth
- Prosesau gwirio, recriwtio a fforffedu pensiwn
- Amseroldeb ac ansawdd ymchwiliadau i gwynion

---

## 5. Craffu pellach a thawelwch meddwl y cyhoedd

### 5.1 Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF (HMICFRS) a Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

Mae'r Comisiynydd yn destun craffu allanol gan HMICFRS a Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Cyhoeddir ymatebion i ganfyddiadau a diweddariadau ar y cynnydd a wnaed ar wefan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd a chânt eu monitro drwy'r byrddau plismona.

This report is available in English

### 5.2 Amseroldeb cyflwyno adroddiadau

Yn unol â Rheoliadau 13 a 19 o *Reoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2020*, hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu am **11 o ymchwiliadau** a gymerodd fwy na 12 mis. Mae amseroldeb bellach yn eitem sefydlog ar agenda'r Bwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol.

### 5.3 Y Panel Heddlu a Throseddu

Parhaodd y Panel Heddlu a Throseddu i graffu ar berfformiad statudol y Comisiynydd, gan gyfarfod **chwe gwaith** yn ystod 2025–26. Cyhoeddir adroddiadau o gyfarfodydd ar wefan y Panel Heddlu a Throseddu ac maent yn cynnwys crynodeb o gwynion a ddaeth i law'r Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn ogystal ag adolygiadau a gynhaliwyd mewn perthynas â delio â chwynion a gynhaliwyd gan yr heddlu.

### 5.4 Pryderon y gymuned

Mae casglu a dadansoddi pryderon lleol gan y cyhoedd yn cefnogi blaenoriaeth y Cynllun Heddlu a Throseddu o feithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona bro.

Caiff gohebiaeth ei chofnodi ar system rheoli cofnodion Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'i chategoreiddio fel y gellir cynnal dadansoddiad chwarterol o gyfathrebiadau a fydd yn llywio gweithgarwch craffu ac ymgysylltu yn y dyfodol.

Yn ystod 2025–26, cofnododd y Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu **389 o bryderon y gymuned**. Mae gohebiaeth wedi'i rhannu'n gategorïau ar gyfer dadansoddiad chwarterol sy'n helpu i lywio gweithgarwch craffu yn y dyfodol.

Mae'r pum categori uchaf a gofnodwyd wedi'u hamlinellu isod

- Cafodd 30% eu cofnodi fel cwynion yn ymwneud â'r Adran Safonau Proffesiynol lle'r oedd unigolion naill ai am wneud cwyn newydd neu'n ceisio diweddariad ar gŵyn weithredol.
- Roedd 15% yn gysylltiedig ag anfodlonrwydd sefydliadol
- Roedd 14% yn ymwneud â phryderon ynghylch traffig lleol
- Roedd 8% yn ymwneud â phryderon ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Roedd 5% yn ymwneud ag amseroedd ymateb Heddlu Dyfed-Powys

---

## 6. Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

Mae'r Comisiynydd yn cyfarfod bob chwarter â Chyfarwyddwr Ymgysylltu Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, sy'n hanfodol wrth gefnogi dyletswydd y Comisiynydd i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif drwy graffu ar berfformiad yr heddlu, atgyfnerthu tryloywder ac atebolrwydd, a chryfhau ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn plismona.

This report is available in English

Mae Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn cyhoeddi ystadegau cwynion yn chwarterol a blynyddol, gan alluogi cymharu heddluoedd, dadansoddi tueddiadau a meincnodi.Mae data adolygu Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi’u cynnwys ac mae'n rhoi cipolwg ar lefelau boddhad achwynwyr. Gellir gweld yr ystadegau diweddaraf ar y ddolen ganlynol Heddlu Dyfed-Powys | Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)

---

## 7. Hapsamplu cwynion Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu

### 7.1 Gweithgarwch hapsamplu

Yn ystod 2025–26, hapsamplodd Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh) **57 o achosion o gwynion a gaewyd**, gan gwmpasu meysydd fel plismona bro, troseddau casineb, ymchwiliadau a phlismona'r ffyrdd.

Roedd y canfyddiadau allweddol yn cynnwys:

- Oedi a methiannau cyfathrebu mewn rhai achosion
- Cofnodi datrysiadau anffurfiol mewn ffordd anghyson
- Ansawdd cryf yr ymatebion ysgrifenedig gan yr Adran Safonau Proffesiynol
- Tystiolaeth o safon da rheoli disgwyliadau mewn cyfathrebiadau i achwynwyr

Adroddir canfyddiadau bob chwarter i Fwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol a'u cyhoeddi ar wefan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

---

## 8. Cyhoeddi

Yn unol â Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) (Diwygio) 2021, mae'r adroddiad perfformiad blynyddol ar reoli cwynion hwn wedi'i gyhoeddi ar wefan Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.

---

## 9. Atodiad: Mapio i'r Gorchymyn Gwybodaeth Benodedig (2021)

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r adroddiad hwn yn cydymffurfio â'r gofynion gwybodaeth a nodir yng **Ngorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) (Diwygio) 2021**, yn benodol y darpariaethau sy'n ymwneud â swyddogaethau goruchwylio ac adolygu cwynion yr heddlu.

This report is available in English

| Gofyniad Gorchymyn Gwybodaeth Benodedig (2021) | Disgrifiad o'r gofyniad | Lle mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag ef |
|---|---|---|
| **Erthygl 1(2) – Gofyniad cyhoeddi blynyddol** | Gofyniad ar Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu i gyhoeddi gwybodaeth benodol bob blwyddyn | Adran 8 – Cyhoeddi |
| **Paragraff 7A(a)** | Hunanasesiad y Comisiynydd o berfformiad wrth oruchwylio'r ffordd y mae'r prif swyddog yn delio â chwynion | Adran 1 (Cyflwyniad) ac Adran 2 (Hunasasesiad y Comisiynydd) |
| **Paragraff 7A(b)** | Trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl | Adran 2.1 – Cwynion am y Prif Gwnstabl |
| **Paragraff 7A(c)** | Disgrifiad o’r ffordd y mae'r Comisiynydd yn gweithredu fel corff adolygu perthnasol | Adran 3 – Adolygiadau o gwynion Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |
| **Paragraff 7A(d)** | Gwybodaeth am adnoddau a phrosesau a ddefnyddir i gyflawni swyddogaethau adolygu | Adrannau 3.6 – Allanoli, sicrhau ansawdd |
| **Paragraff 7A(e)** | Data ar nifer yr adolygiadau o gwynion a'u canlyniadau | Adrannau – Adolygu perfformiad |
| **Paragraff 7A(f)** | Sut mae dysgu ac argymhellion o gwynion yn cael eu nodi a sut y delir â hwy | Adrannau 3 ac Adran 7 – Hapsamplu |
| **Paragraff 7A(g)** | Sut mae'r Comisiynydd yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am ddelio â chwynion | Adran 4 – Dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif |
| **Paragraff 7A(h)** | Trefniadau llywodraethu a chraffu sy'n cefnogi’r broses o oruchwylio cwynion | Adrannau 4 a 5 – Bwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol, Panel yr Heddlu a Throseddu, craffu allanol |
| **Paragraff 7A(i)** | Ymgysylltu â Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu a goruchwyliaeth ganddi | Adrannau 3.14 a 6 – Ymgysylltu ac ystadegau Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu |
| **Paragraff 7A(j)** | Tryloywder a hygyrchedd gwybodaeth am gwynion | Adrannau 5 ac 8 – Pryderon y gymuned a chyhoeddi |

Mae'r mapio hwn yn rhoi sicrwydd bod y Comisiynydd wedi cydymffurfio'n llawn â'r Gorchymyn Gwybodaeth Benodedig a'r gofynion cyhoeddi.

This report is available in English

| Perfformiad a sicrwydd yr heddlu | Mae Adrannau 3, 4, 5 a 7 yn rhoi sicrwydd ansoddol a meintiol ar sut mae'r heddlu'n delio â chwynion. |
|---|---|
| **Dysgu a gwelliant parhaus** | Mae Adrannau 3 a 7 yn nodi sut mae dysgu, argymhellion a hapsamplu yn llywio gwelliant |
| **Ymgysylltu a hyder y cyhoedd** | Mae Adran 5 yn dangos sut mae pryderon y gymuned yn cael eu casglu, eu dadansoddi a'u defnyddio i lywio gweithgarwch craffu |